Ysgogwyr newid: gweithio gyda phobl ifanc 16–24 oed i ddatblygu adnodd ar sut i wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol yng Nghymru

Donna Smith, Y Brifysgol Agored
Jenny Hewitt, Prifysgol Sussex

CRYNODEB

Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod pobl ifanc yn y DU yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â democratiaeth ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ffurfiol, er eu bod yn cymryd rhan mewn mathau eraill o fywyd gwleidyddol o bosibl. Mae addysg ar wleidyddiaeth, democratiaeth a dinasyddiaeth yn allweddol i sicrhau ymgysylltiad. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil hefyd yn awgrymu bod angen i bobl ifanc gael addysg well am hanfodion gwleidyddiaeth/dinasyddiaeth er mwyn helpu i ennyn eu diddordeb. Gan ddefnyddio Cymru fel astudiaeth achos a thrwy gydweithio â dinasyddion ifanc Cymru rhwng 16 a 24 oed, mae'r prosiect Ysgogwyr Newid yn archwilio'r hyn y maent yn ei wybod am sefydliadau gwleidyddol y DU a gwneud newid gwleidyddol/cymdeithasol, a'r math o adnodd/adnoddau sydd ei angen/eu hangen arnynt i wella eu dealltwriaeth, gan alluogi dinasyddiaeth weithgar. Mae'r erthygl hon yn trafod canfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil hwn, gan ganolbwyntio ar greu adnodd addysgol amlieithog (gwefan ryngweithiol). Mae'r canfyddiadau'n datgelu bylchau sylweddol mewn dealltwriaeth wleidyddol, yn enwedig yn ymwneud â llywodraethu datganoledig a phwy sy'n gyfrifol am fynd i'r afael â phryderon gwleidyddol. Mae hyn yn amlygu'r angen am wybodaeth sy'n berthnasol i wledydd penodol. Mae'r papur hwn yn cyflwyno dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar

https://doi.org/10.16922/wje.767cym

bobl ifanc er mwyn darparu gwybodaeth wleidyddol sy'n integreiddio ymgysylltiad digidol a hygyrchedd amlieithog. Ar gyfer ymarferwyr, mae'r gwaith ymchwil yn tanlinellu manteision datblygu adnoddau addysgol gyda phobl ifanc.

Geiriau allweddol: addysg dinasyddiaeth, gwybodaeth wleidyddol, gwneud newid, pobl ifanc, cymru, dylunio adnoddau

Cyflwyniad

Mae patrymau ymddygiad gwleidyddol pobl ifanc ledled y DU wedi denu sylw yn ystod y degawdau diwethaf gan fod ymchwil i ymgysylltiad gwleidyddol, megis pleidleisio, aelodaeth o bleidiau gwleidyddol, a chyfrifoldeb dinesig, yn awgrymu yn gyson bod pobl ifanc yn troi eu cefnau ar brosesau gwleidyddol ffurfiol – a ddiffinnir fel cyfranogiad gwleidyddol sy'n gysylltiedig â sefydliadau (Norris, 2011; Furlong a Cartmel, 2012; Henn a Foard, 2012). Yn wir, mae gwaith ymchwil Tŷ'r Cyffredin yn awgrymu bod pobl ifanc yn y DU yn fwy tebygol o fod yn anfodlon â democratiaeth ac yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth ffurfiol, fel pleidleisio ac ymaelodi â phlaid wleidyddol, er y gallant gymryd rhan mewn mathau eraill o fywyd gwleidyddol (Uberoi a Johnston, 2022). Mae gwaith ymchwil diweddar yn adlewyrchu hyn, gan nodi bod 'bylchau gwybodaeth' yn rhwystrau i bleidleisio (Moore, 2023), sy'n gallu amrywio yn ôl ansawdd yr addysg wleidyddol a gafwyd yn yr ysgol ac a ydynt wedi cael eu magu mewn teulu sy'n ymddiddori mewn gwleidyddiaeth.

Un ffordd o ymateb i hyn yw trwy ddarparu addysg a gwybodaeth well. Yn wir, mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod derbyn addysg dinasyddiaeth yn cael effaith ar ddinasyddiaeth ymgysylltiedig (Weinberg a Flinders, 2019). Fodd bynnag, yn y DU, er gwaethaf y potensial ar gyfer addysg dinasyddiaeth arloesol (a'r nifer fawr o enghreifftiau 'lleol' rhagorol sydd ar waith), mae gwahaniaethau a newidiadau mewn polisïau/cwricwla, hyfforddiant athrawon annigonol ac anarbenigol, a'r her sy'n deillio o brinder adnoddau a diffyg lle mewn cwricwla/ysgolion, wedi cyfrannu at ddarpariaeth 'anghymesur' ledled pedair gwlad y DU ac o fewn y gwledydd eu hunain (Jerome et al., 2022: 14). Yn wir, yng Nghymru, mae testun y papur hwn, y

'Cwricwlwm i Gymru' (a gyflwynwyd o 2022 ymlaen) wedi cael ei feirniadu gan rai am ddiffyg pwyslais penodol ar addysg wleidyddol/dinasyddiaeth[1] (Moore et al., 2022). Mae rhai pobl wedi galw am wneud addysg wleidyddol/dinasyddiaeth yn bwnc gofynnol ac ar wahân (Mathias, 2020), yn hytrach na dilyn yr egwyddor o sybsidiaredd.[2]

Er mwyn gwella dealltwriaeth wleidyddol ymhlith pobl ifanc, mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod angen adnoddau sydd nid yn unig yn addysgiadol, ond sydd hefyd wedi'u cyd-ddylunio, yn hygyrch ac yn berthnasol i brofiadau bywyd pobl ifanc (Biesta, 2011; Bessant et al., 2016; IFES, 2024). Pan fydd pobl ifanc yn cymryd rhan weithredol mewn llunio adnoddau addysgol, mae'r deunyddiau sy'n deillio o hynny yn fwy tebygol o adlewyrchu eu hanghenion, gwella ymgysylltiad, a chefnogi cyfranogiad ystyrlon mewn bywyd democrataidd (IFES, 2024; CESIE, dim dyddiad). Mae'r prosiect ymchwil 'Ysgogwyr Newid' gan y Brifysgol Agored yn ymdrin â'r mater hwn trwy ganolbwyntio ar Gymru a phobl ifanc 16–24 oed yng Nghymru fel astudiaeth achos gychwynnol. Mae'r prosiect yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymchwil, gan gynnwys arolygon ar-lein a grwpiau ffocws, er mwyn cofnodi sut mae pobl ifanc yn teimlo a'r hyn maen nhw'n ei wybod am sefydliadau gwleidyddol y DU ac am newid gwleidyddol a chymdeithasol, a'r math o adnodd/adnoddau sydd ei angen/eu hangen arnynt i wella eu dealltwriaeth, gan eu grymuso i fod yn ddinasyddion gweithgar.[3] Mae'r papur hwn yn amlinellu canfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil hyd yn hyn, gan drafod sut y gwnaethom weithio gyda phobl ifanc i ddatblygu'r adnodd terfynol, sef gwefan ryngweithiol amlieithog yn ymwneud â gwneud newid gwleidyddol a chymdeithasol yng Nghymru i'w defnyddio gan bobl ifanc 16–24 oed.

1 Er bod y termau 'addysg dinasyddiaeth' ac 'addysg wleidyddol' yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol ar lafar yn aml, maent yn dynodi cysyniadau gwahanol. Mae addysg dinasyddiaeth yn cynnwys cwmpas ehangach, gyda'r nod o ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd unigolion sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfranogiad gweithredol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Mewn cyferbyniad, mae addysg wleidyddol yn canolbwyntio mwy ar feithrin dealltwriaeth o systemau a phrosesau gwleidyddol a dulliau o ymgysylltiad gwleidyddol.

2 O ganlyniad, mae ysgolion yn gallu penderfynu ar gynnwys y cwricwlwm (oddi mewn i fframwaith cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru) gan ystyried anghenion lleol.

3 Mae dinasyddiaeth weithgar yn ymwneud â'r syniad bod pobl yn gallu bod yn ddinasyddion gwleidyddol gweithgar: eu bod yn gallu mynd ato i geisio gwneud newid (neu, yn wir, ei atal).

Adolygiad llenyddiaeth a pholisi

Cyfranogiad gwleidyddol mewn cyd-destun

Ers deddfu datganoli yng Nghymru ym 1999, mae pwerau a chyfrifoldebau yng Nghymru wedi'u rhannu ar draws tair lefel: awdurdodau lleol (lefel ficro/leol), Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru (lefel ganolradd/genedlaethol), a Senedd y DU/Llywodraeth y DU (lefel facro/y DU). Mae Senedd Cymru wedi rhoi pwyslais allweddol ar addysg, pobl ifanc, ac ymgysylltiad democrataidd mewn sawl ffordd wahanol ers dyfodiad datganoli. Er enghraifft, yn dilyn Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) yn 2020 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn y2021, cafodd yr oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau i'r Senedd ac etholiadau lleol yng Nghymru ei ostwng i 16 oed.

Er gwaethaf gostwng yr oedran pleidleisio a phwyslais polisi Senedd Cymru, mae gwaith ymchwil yn awgrymu nad yw pobl ifanc yng Nghymru yn deall bob amser sut mae'r haenau gwahanol o sefydliadau gwleidyddol ar lefel leol, lefel genedlaethol a lefel y DU yn gweithio/cydgysylltu. Yn wir, mae gwaith ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol (2022) wedi awgrymu bod angen mwy o addysg a chefnogaeth ar bobl ifanc yng Nghymru i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol a chenedlaethol, gyda chyfranogwyr yn dweud eu bod yn teimlo nad oeddent yn gwybod digon am ymgeiswyr lleol, y pleidiau gwleidyddol, na'r broses ddemocrataidd yn gyffredinol. Hefyd, dangosodd gwaith ymchwil dilynol gan y Comisiwn Etholiadol (2025) fod llai na thraean o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed (31 y cant) yn gwybod llawer am yr hyn y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud. Roedd lefel y wybodaeth am waith y seneddau datganoledig hyd yn oed yn is, gyda 15 y cant yn unig yn dweud eu bod yn gwybod llawer am waith y Senedd (rhaid cofio mai astudiaeth DU gyfan oedd hon, yn hytrach nag un Cymru yn unig). Mae Astudiaeth Aml-garfan Addysg Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD), a oedd yn canolbwyntio ar ddisgyblion ysgolion uwchradd ym mlynyddoedd 7, 9 ac 11, yn awgrymu bod y rhan fwyaf o bobl ifanc Cymru yn amwys am wleidyddiaeth a phleidleisio, a bod bylchau yn eu gwybodaeth am wleidyddiaeth (Foster et al., 2022). Hefyd, mae'r astudiaeth hon yn nodi mai dim ond 37 y cant o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys i bleidleisio a bleidleisiodd yn etholiad Senedd Cymru 2021 (y tro cyntaf iddynt fod yn gymwys i bleidleisio). Yn wir, er bod yr oedran pleidleisio wedi gostwng i 16, yn 2021 dim ond tua hanner

y bobl ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru a oedd wedi'u *cofrestru* i bleidleisio (Dhesi, 2022; Foster, 2021).

Mae'n bwysig nodi bod cyfraddau pleidleisio wedi bod yn gostwng yn gyffredinol ledled y DU *yn ei chyfanrwydd*, nid dim ond yng Nghymru, ers y 1990au (Uberoi, 2023). Mae'r un peth yn wir am etholiadau seneddol cenedlaethol gwledydd Ewropeaidd eraill (Kuzina, 2024), yn ogystal ag etholiadau Senedd yr UE (er bod cyfraddau pleidleisio ar gyfer yr olaf wedi cynyddu ers 2019 (Europa, dim dyddiad)). Hefyd, mae'n bwysig nodi bod nifer y pleidleiswyr ifanc yn y DU wedi gostwng yn sylweddol yn y 1990au ac wedi aros yn gyson is ers hynny (Chrisp a Pearce, 2021). Yn y DU, mae gwahaniaeth mawr rhwng nifer y bobl hŷn a nifer y bobl ifanc sy'n pleidleisio o'i gymharu â llawer o wledydd Ewropeaidd eraill (Birch et al., 2013). Felly, mae angen deall diffyg diddordeb pobl ifanc yn yr etholiadau cenedlaethol diweddaraf yng Nghymru yn y cyd-destun ehangach hwn.

Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi bod nifer y rhai sy'n pleidleisio yn etholiadau Senedd yr Alban yn llawer uwch yn gyffredinol na'r rhai sy'n pleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru (12–18 pwynt canran fel arfer) (Uberoi, 2023). Hefyd, mae'r cyfraddau o bobl ifanc sy'n pleidleisio yn yr Alban yn uwch o lawer nag yng Nghymru, a gwelwyd hynny yn syth ar ôl gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ac yn y tymor canolig. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth wleidyddol (h.y. effaith etholiad annibyniaeth yr Alban yn 2014), sefydlu arferion, ac ymwreiddio democrataidd dilynol (Huebner, 2021).

O ran etholiadau diweddar yng Nghymru, roedd 38.7 y cant o'r etholwyr wedi pleidleisio yn yr etholiadau lleol yn 2022, sef gostyngiad o 4 y cant o'i gymharu â 2017 (Moss, 2024). Er bod mwy o bobl nag erioed (51.1 y cant) wedi pleidleisio yn etholiad diwethaf Senedd Cymru yn 2026, fel mae Senedd Cymru yn ei nodi, roedd dros hanner y bobl a oedd yn gymwys i bleidleisio wedi methu â gwneud hynny (Moss, 2024). Roedd lefel yr ymgysylltiad yn amrywio ledled y wlad, ond mae'r darlun cyffredinol yn awgrymu bod yr etholiadau datganoledig wedi methu ag ymgysylltu â llawer o'r etholwyr, gan gynnwys pobl ifanc.

Addysg ac ymgysylltiad gwleidyddol

Mae adroddiad ar effaith yr hawl i bleidleisio yn 16 oed yn yr Alban (y mae'r awdur yn ei gymhwyso i Gymru wedyn) yn nodi bod gwella addysg dinasyddiaeth yn allweddol i sicrhau ymgysylltiad gwleidyddol, gan gynnwys pwyslais ar ofodau

anffurfiol, ochr yn ochr ag addysgu dinesig mwy penodol, er mwyn rhannu safbwyntiau a phrofiadau gwleidyddol-gymdeithasol (Huebner, 2021). Mae Andreouli et al. (2024) hefyd yn nodi pwysigrwydd cynnal trafodaeth mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru,[4] gan sicrhau amser/lle ar gyfer trafodaethau myfyrwyr, ymdrin â phryderon beunyddiol pobl ifanc, a chyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â llunwyr polisi/cymdeithas sifil, sy'n hanfodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

Mae Moore et al. (2022) yn nodi'n benodol bod angen i Lywodraeth Cymru gryfhau addysg wleidyddol a dinasyddiaeth mewn ysgolion, gwella canllawiau addysgu drwy roi pwyslais amlwg arnynt yn ystod hyfforddiant TAR, a sicrhau bod hanes modern a gwleidyddiaeth Cymru wedi'u hymgorffori'n dda yn y cwricwlwm, gan gynnwys drwy'r cymwysterau TGAU newydd. Mae'r argymhellion 'strwythurol' hyn yn cael eu hadleisio gan waith Andreouli et al. (2024), sy'n nodi bod angen cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru trwy ddarparu arian ychwanegol i reoli llwyth gwaith ychwanegol y cwricwlwm, darparu storfa o adnoddau/enghreifftiau i fonitro sut mae dinasyddiaeth yn cael ei haddysgu er mwyn datblygu canllawiau ategol, a rhoi mwy o gydnabyddiaeth i bwysigrwydd addysg wleidyddol/dinasyddiaeth yn fwy cyffredinol. Yn ogystal, mae adroddiad Moore et al. (2022) yn awgrymu pwysigrwydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen cadarn i ddarparu a lledaenu adnoddau o ansawdd uchel, wedi'u cyd-gynhyrchu â dinasyddion, ynghyd ag ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus gyda'r nod o ymgysylltu â grwpiau amrywiol (oedolion yn ogystal â phlant a phobl ifanc oed ysgol).

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rhai o'r materion, a dangosir hyn gan ei hymrwymiad i ddatblygu adnoddau addysg wleidyddol/dinasyddiaeth i'w defnyddio mewn ysgolion yng Nghymru (e.e. adnoddau a ddatblygwyd gyda'r Gymdeithas ar gyfer Addysgu Dinasyddiaeth i gynorthwyo gydag addysgu gwleidyddiaeth). Mae Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru yn cefnogi'r nod hwn hefyd trwy ei phrosiect 'Clywed Ein Lleisiau' (Blair a Mathias, 2018). Fodd bynnag, mae perygl y bydd y pwyslais ar ymreolaeth ysgolion, sy'n gysylltiedig â'r egwyddor graidd o sybsidiaredd (sy'n elfen bwysig o ddyluniad y Cwricwlwm i Gymru) mewn perthynas â chyflwyno'r adnoddau hyn, yn golygu bod risg o amrywiaeth sylweddol. Mae hyn yn ymwneud â chyflwyno'r pynciau ac effeithiolrwydd, ac mae Andreouli et al. (2024) yn nodi bod y ffaith bod y Cwricwlwm i Gymru wedi'i weithredu mewn

4 Llywodraeth Cymru. *Cwricwlwm i Gymru.* Gw. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru

ffyrdd amrywiol mewn ysgolion a'r diffyg canllawiau yn her. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i greu TGAU newydd mewn Hanes ac Astudiaethau Cymdeithasol, gyda hanes a gwleidyddiaeth Cymru yn elfennau allweddol ohonynt (Cymwysterau Cymru, 2023). Er nad yw astudio'r rhain yn orfodol, awgrymwyd y gallent arwain at gyfleoedd yn y dyfodol, megis cyrsiau TAR arbenigol ac addysg dinasyddiaeth arbenigol a mwy manwl ar lefel uwchradd (Moore et al., 2022).

Mae gwaith ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol (2025) ledled y DU yn awgrymu mai teledu a'r cyfryngau cymdeithasol yw'r dulliau mwyaf poblogaidd o gael gwybodaeth am wleidyddiaeth ymhlith pobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ar hyn o bryd, er bod y teledu yn ffynhonnell oddefol yn aml (e.e. clywed beth mae eu rhieni yn ei wylio). Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu hefyd bod pobl ifanc eisiau gwybod mwy am bleidiau gwleidyddol ac am sut mae eu pleidleisiau yn gallu gwneud gwahaniaeth (56 y cant a 54 y cant yn y drefn honno), a'u bod eisiau dysgu am hyn mewn gwersi (44 y cant), trwy gael ymweliadau gan bobl sy'n gweithio ym maes gwleidyddiaeth (42 y cant), a thrwy deithiau ysgol (34 y cant) (Y Comisiwn Etholiadol, 2025). Yn hollbwysig, mae trafodaethau gwleidyddol yn y cartref neu'r ysgol yn effeithio ar hyder pobl ifanc i bleidleisio, ond nid yw llawer o bobl ifanc yn cael y sgyrsiau hyn. Yn wir, yn ôl canfyddiad y Comisiwn Etholiadol (2025), er bod 81 y cant o'r rhai sy'n siarad am wleidyddiaeth yn aml yn y cartref yn teimlo'n hyderus am bleidleisio, dim ond eu hanner sy'n pleidleisio'n rheolaidd. Yn yr un modd, mae'r rhai sydd wedi dysgu am wleidyddiaeth yn yr ysgol (76 y cant) yn teimlo'n hyderus am bleidleisio. Fodd bynnag, dim ond ychydig dros draean ohonynt sydd wedi pleidleisio, ac yn aml mae hynny wedi digwydd yng nghyd-destun gwersi hanes yn hytrach na chyd-destun democrataidd ehangach.

O safbwynt mentrau Llywodraeth Cymru, sefydlwyd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn 2021 er mwyn archwilio opsiynau ar gyfer datblygiad cyfansoddiadol Cymru a nodi dulliau o gryfhau democratiaeth Cymru. Yn 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol er mwyn ymgynghori â phoblogaeth Cymru yn ehangach ar sut i wella ymgysylltiad democrataidd yn sylweddol. Yn 2025 sefydlwyd y 'Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth' yn dilyn argymhelliad gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Cylch gwaith penodol y Grŵp hwn oedd 'adfywio'r ffordd y mae pobl Cymru yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r sefydliadau a'r prosesau sy'n effeithio ar ein bywydau o ddydd i ddydd … i

gryfhau'r gallu ar gyfer arloesi democrataidd a chynnwys dinasyddion yng Nghymru' (Llywodraeth Cymru, 2025). Ochr yn ochr â phwyslais Llywodraeth Cymru ar foderneiddio etholiadau yng Nghymru, gwella ymgysylltiad gwleidyddol, a datblygu addysg ac adnoddau gwleidyddol/dinasyddiaeth, mae'n bosibl y bydd creu Medr yn 2024 (sy'n goruchwylio addysg ôl-16 gydag ymrwymiad penodol i ddysgu gydol oes ac ymgysylltu dinesig) yn cynyddu'r pwyslais ar addysg wleidyddol ledled y sector.

Dulliau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc

Er mwyn gwella dealltwriaeth wleidyddol ymhlith pobl ifanc, mae corff cynyddol o waith ymchwil yn cadarnhau bod angen adnoddau addysgol sydd nid yn unig yn addysgiadol ond sydd hefyd yn gyfranogol, yn hygyrch ac yn adlewyrchu profiadau amrywiol y bobl ifanc hynny. Felly, mae'n hanfodol bwysig cynnwys pobl ifanc a gwrando arnynt. Mae dau syniad yn cydblethu yn y cyswllt hwn. Mae'r syniad cyntaf yn seiliedig ar bobl ifanc yn cyd-ddylunio cwricwlwm/addysg/gwybodaeth yn ymwneud â gwleidyddiaeth/dinasyddiaeth. Mae'r ail yn seiliedig ar bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys cyd-greu/cyfranogi (e.e. dylunio ymyrraeth neu ymgyrch sy'n ymwneud ag achos y mae ganddynt ddiddordeb ynddo) wrth ymgysylltu ag addysg wleidyddol/dinasyddiaeth neu â gwybodaeth gyhoeddus sy'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth/dinasyddiaeth.

Mewn perthynas â'r cyntaf, nid yw cyd-ddylunio adnoddau addysgol gyda phobl ifanc yn syniad radical ynddo ei hun. Mae Bessant et al. (2016: 276) yn nodi hyn: 'In co-design, those affected by the proposed design are actively involved as partners in the design process'.

Fodd bynnag, maent yn awgrymu bod y model hwn yn gwrthdroi syniadau traddodiadol yn ymwneud ag addysg dinasyddiaeth: yn hytrach na bod addysg dinasyddiaeth yn defnyddio dull gweithredu o'r brig i lawr er mwyn helpu pobl ifanc i *ddod* yn ddinasyddion (gwell), mae cyd-ddylunio addysg ddemocrataidd sy'n cynnwys pobl ifanc yn galluogi gwybodaeth a sgiliau gwleidyddol newydd pwysig y dylid eu hymgorffori mewn cwricwlwm dinasyddiaeth (2016: 280). Mae hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn ymgorffori hefyd yr hyn y maent yn ei alw'n 'wleidyddiaeth newydd' (2016: 278) sy'n cydnabod sut mae pobl ifanc yn rhyngweithio, h.y. ymgysylltiad digidol sy'n rhyngweithiol iawn, cymunedau sy'n seiliedig ar gymheiriaid, a beirniadaeth o'r model 'gwleidyddiaeth fel arfer' (2016: 279).

Yn wir, mae modelau addysg wleidyddol/dinasyddiaeth o'r brig i lawr traddodiadol yn cael eu hystyried fwyfwy yn fodelau annigonol ar gyfer meithrin ymgysylltiad ystyrlon â bywyd democrataidd. Yn hytrach, rhoddir pwyslais ar ddulliau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc ac yn rhoi blaenoriaeth i gyd-greu a pherthnasedd cyd-destunol. Yn ôl awgrym Adroddiad Agenda Dysgu'r IFES (2024), os yw pobl ifanc yn cymryd rhan weithredol yn y broses o ddylunio a chyflwyno rhaglenni addysg ddinesig – fel cyd-grewyr, penderfynwyr a gwerthuswyr – mae'r deunyddiau sy'n deillio o'r gwaith yn fwy cynhwysol, credadwy ac effeithiol. Mae'r modelau cyfranogol hyn nid yn unig yn gwella dealltwriaeth o systemau gwleidyddol ond hefyd yn datblygu hyder a gallu pobl ifanc i weithredu ynddynt. Mae'r prosiect Get Political (CESIE, dim dyddiad) yn atgyfnerthu'r canfyddiadau hyn, gan nodi bod profiadau dysgu cyfranogol a chynnwys teilwredig a pherthnasol yn cael effaith gadarnhaol ar lythrennedd ac ymgysylltiad gwleidyddol pobl ifanc. Yn gyffredinol, mae'n pwysleisio bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ymgysylltu pan fydd ganddynt fynediad at wybodaeth glir ac ymarferol a phan fyddant yn helpu i lunio sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno.

Nid dim ond y weithred o gyd-ddylunio sy'n bwysig, ond hefyd i ba raddau y mae'r adnoddau sy'n deillio o'r broses yn rhan o brofiadau bywyd bob dydd pobl ifanc. Fel y mae Biesta (2011) yn ei ddadlau, nid dim ond trosglwyddo gwybodaeth am sefydliadau democrataidd yw dysgu dinesig. Mae hefyd yn ymwneud â meithrin goddrychedd democrataidd - proses sydd wedi'i gwreiddio'n ddwfn mewn agweddau cymdeithasol, diwylliannol ac affeithiol ar fywyd. Mae adnoddau sydd wedi'u datblygu gyda phobl ifanc yn gallu adlewyrchu cymhlethdod eu sefyllfaoedd gwleidyddol-gymdeithasol, yn enwedig pan fyddant yn cael eu llywio gan sut y mae pobl ifanc eisoes yn deall pŵer, cyfranogiad a pherthyn yn eu cymunedau. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith Mills a Gale (2010), sy'n dadlau o blaid dull gweithredu 'addysg ar gyfer cyfiawnder cymdeithasol' sy'n rhoi sylw i ddaearyddiaeth a phrofiadau bywyd bob dydd dysgwyr. Os yw adnoddau addysgol yn ymateb i fywydau bob dydd lleol, cyd-destunol, byddant nid yn unig yn fwy ystyrlon, ond hefyd yn fwy effeithiol wrth ddatblygu sensitifrwydd dinesig beirniadol.

Mae Nelsen (2021) yn dangos potensial trawsnewidiol addysgeg feirniadol ymhellach, gan nodi bod addysg ddinesig sy'n seiliedig ar alluogedd pobl ifanc a realiti cymdeithasol (yn enwedig mewn cymunedau wedi'u hymyleiddio) yn gallu cynyddu cyfranogiad gwleidyddol yn sylweddol. Yn yr un modd, mae Cohen a Kahne et al. (2012) yn dadlau o blaid ailfeddwl am addysg ddinesig er mwyn adlewyrchu

ymgysylltiad gwleidyddol cyfoes pobl ifanc sy'n seiliedig ar ddulliau cyfranogol, digidol a dylanwad cyfoedion. Mae eu gwaith ymchwil yn nodi pwysigrwydd sicrhau cysondeb rhwng arferion addysgol a sut mae pobl ifanc eisoes yn rhyngweithio â bywyd cyhoeddus. Yn olaf, mae'r Youth Political Participation Literature and Policy Review 1980–2023 (Bacalso et al., 2024) yn crynhoi degawdau o lenyddiaeth a pholisi maes, ac yn pwysleisio bod strategaethau cynhwysol a chyfranogol sy'n seiliedig ar anghenion, cyd-destunau a lleisiau pobl ifanc yn bwysig er mwyn meithrin cyfranogiad democrataidd parhaus ac ystyrlon.

Methodoleg

Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar nod ymchwil cyffredinol a set o gwestiynau ymchwil. Nod y gwaith ymchwil oedd dysgu gan ddinasyddion ifanc Cymru rhwng 16 a 24 oed am eu dealltwriaeth o wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol yng Nghymru, a nodi'r hyn sydd ei angen arnynt i'w helpu i fod yn ddinasyddion gweithgar yn y dyfodol. Defnyddiwyd dau gwestiwn ymchwil i fynd i'r afael â'r nod hwn: 1) Beth mae dinasyddion ifanc Cymru 16–24 oed yn ei wybod, ac nad ydynt yn ei wybod, am sut i wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol yng Nghymru?; 2) Pa wybodaeth ac adnodd/adnoddau sy'n ddefnyddiol yn eu barn nhw i wella eu dealltwriaeth yn y dyfodol a hwyluso dinasyddiaeth weithgar (neu'r potensial am ddinasyddiaeth weithgar)? Ni wnaeth y prosiect roi llawer o sylw i ddiffiniadau, a hynny'n fwriadol (h.y. y gwahaniaeth rhwng addysg wleidyddol, addysg dinasyddiaeth, ac addysg ddemocrataidd); roedd yn pwysleisio 'dealltwriaeth wleidyddol' mewn ystyr eang ac yn unol â dylanwad y cyfranogwyr.

Defnyddiwyd dull cyd-ddylunio a oedd yn hwyluso ac yn datblygu, yn hytrach nag yn cyfarwyddo, wedi'i ategu gan y pum protocol cyd-ddylunio ar gyfer cwricwlwm dinasyddiaeth a nodwyd gan Bessant et al. (2016). Mae'r protocolau hyn yn amlinellu dull trawsnewidiol o ymarfer addysgol, yn ogystal â darparu sylfaen ymarferol y gellir ei rheoli ar gyfer y gwaith ymchwil. Roedd y protocol cyntaf, **recriwtio cyfranogwyr,** yn cynnwys adnabod a gweithio gyda phobl ifanc a oedd â diddordeb mewn prosiect democrataidd ac yn barod i ymgysylltu mewn ffordd feirniadol ac adeiladol â'r broses o gynllunio'r cwricwlwm; mae'r protocol yn nodi bod hunanddethol trwy sefydliad allanol yn briodol. Mae'r ail brotocol, **nodi a goresgyn rhwystrau,** yn mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad, gan ganolbwyntio ar

danseilio perthnasoedd pŵer o'r brig i lawr traddodiadol (addysgwr i fyfyriwr/person ifanc), a thrwy hynny hwyluso cyfranogiad mwy cyfartal. Mae'r trydydd protocol, **ymholi a thrafod,** yn awgrymu pwyslais ar werthoedd, gan gynnwys trafodaeth gan gyfranogwyr am y rhesymau pam mae prosiect democrataidd yn bwysig, a thrwy hynny sicrhau eglurder y pwrpas. Mae'r pedwerydd protocol (sy'n gysylltiedig â'r protocol blaenorol), **eglurder pwrpas,** yn nodi bod dilysrwydd a galluogedd y cyfranogwyr yn allweddol, gan hwyluso dinasyddiaeth weithgar. Mae'r protocol olaf, **rhwymedigaethau**, yn pwysleisio cyfrifoldebau ymchwilwyr i gefnogi datblygiad cyfranogwyr fel hwyluswyr gwleidyddol, gan helpu i lywio dynameg pŵer a chyfyngiadau sefydliadol, yn ogystal ag ystyriaethau moesegol yn ymwneud â materion fel cydsyniad.

Gan ystyried y protocolau uchod, defnyddiodd y prosiect fethodoleg ymchwil a oedd yn ceisio cofnodi cymaint o wybodaeth gyfoethog â phosibl, gan sicrhau bod modd nodi themâu trawsbynciol yn ogystal â gwybodaeth am y math o adnodd roedd pobl ifanc ei eisiau i ddarparu'r wybodaeth allweddol a nodwyd. Dyma'r gweithgareddau allweddol:

Adolygiad o lenyddiaeth a pholisïau

Trwy ddefnyddio dull naratif ansystematig, roedd modd sicrhau synthesis cynhwysfawr o lenyddiaeth ymchwil a pholisïau presennol yn ymwneud â'r pynciau dan sylw, gan ddarparu trosolwg archwiliol eang o'r sefyllfa bresennol a nodi themâu a bylchau allweddol (Hecker a Kalpokas, 2023a). Roedd y penderfyniad i adolygu ymchwil academaidd *a* pholisi wedi darparu gwybodaeth bwysig am y materion dan sylw, gan roi cyfle i ni nodi'r prif themâu er mwyn llywio'r arolygon ar-lein a'r grwpiau ffocws dilynol gyda phobl ifanc.

Arolygon ar-lein

Lluniwyd arolwg ar gyfer dinasyddion ifanc Cymru rhwng 16 a 24 oed er mwyn asesu eu dealltwriaeth o sefydliadau gwleidyddol a sut i wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol, a'u hyder yn eu gallu i wneud newid. Canolbwyntiwyd yn benodol ar nodi gwahaniaethau yn adborth y cyfranogwyr rhwng Senedd y DU a Senedd Cymru a'r rhesymau am eu lefelau dealltwriaeth/hyder. Hefyd, gofynnwyd iddynt am y mathau o wybodaeth ac adnodd/adnoddau a fyddai'n ddefnyddiol

iddynt wella eu dealltwriaeth. Roedd tri arolwg ar gael i'w cwblhau yn y Gymraeg a'r Saesneg:

1. Arolwg JISC ar-lein cychwynnol a anfonwyd at fyfyrwyr cofrestredig presennol y Brifysgol Agored rhwng 16 a 24 oed sydd â chod post yng Nghymru er mwyn profi'r arolwg [60 o ymatebwyr]
2. Arolwg cyfryngau cymdeithasol JISC ar-lein agored ar gyfer pobl ifanc Cymru 16–24 oed (wedi'i hysbysebu trwy gyfrif X/Twitter y Brifysgol Agored yng Nghymru) [204 o ymatebwyr]
3. Arolwg ar-lein a gynhaliwyd gan gwmni marchnata allanol [100 o ymatebwyr]

Cwblhawyd yr arolygon gan gyfanswm o 364 o bobl o Gymru yn yr ystod oedran a dargedwyd, gan ddarparu cyd-destun a phwyntiau trafod defnyddiol ar gyfer y grwpiau ffocws a'r broses o ddylunio adnoddau.[5] Cafwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr arolygon gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ddynol (HREC) y Brifysgol Agored. Cafodd y cyfranogwyr eu cynnwys mewn raffl i ennill taleb, ac ni wnaethant gymryd rhan mewn camau pellach o'r gwaith ymchwil (er rhoddwyd cyfle iddynt gael copi o'r adroddiad terfynol).

Grwpiau ffocws ar-lein

Yn unol â'r protocolau a nodwyd uchod (Bessant et al., 2016), fe wnaethom gydweithio â sefydliadau ieuenctid cymunedol er mwyn cynorthwyo'r broses o recriwtio a chyfranogi yn y grwpiau ffocws ar-lein. Cafodd grwpiau cymunedol sy'n gwneud gwaith sy'n berthnasol i themâu'r gwaith ymchwil wahoddiad i fynychu gweithdy wyneb yn wyneb cychwynnol. Roedd y gweithdy hwn yn gyfle i gyflwyno'r gwaith ymchwil ac amlinellu'r pum protocol cyd-ddylunio. Yn dilyn yr ymgysylltiad hwn, cytunodd dau sefydliad - Fforwm Ieuenctid Grange Pavilion a Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro - i gymryd rhan ymhellach.[6] Ar ôl hynny, fe wnaeth aelod o staff o bob sefydliad wahodd gwirfoddolwyr (a oedd eisoes yn rhan o'r grwpiau priodol)

5 Defnyddiwyd tri arolwg er mwyn sicrhau sampl ddigon mawr ac amrywiol o ymatebion; cafodd yr arolwg a gomisiynwyd yn allanol ei gynnwys er mwyn cynyddu nifer yr ymatebwyr a lleihau'r risg o gyfranogiad isel yn yr arolygon myfyrwyr ac ar-lein agored.

6 Cytunodd y sefydliadau eraill i weithio gyda ni ar ledaenu'r gwaith.

yn y demograffig targed i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws, yn unol â phrotocol un (recriwtio cyfranogwyr trwy hunanddethol).

Awgrymodd y sefydliadau ieuenctid y buom yn gweithio gyda nhw y byddai'n ddefnyddiol darparu 'ffordd i mewn' i bwnc y gwaith ymchwil i gyfranogwyr, yn hytrach na dechrau heb unrhyw baratoi yn y grwpiau ffocws, gan y gallai rhai o'r cyfranogwyr fod yn ddihyder. Felly, penderfynwyd gofyn i'r cyfranogwyr gwblhau'r cwrs addysgol roeddem eisoes wedi'i greu, cwrs OpenLearn deg awr o hyd, 'Introduction to making political and social change'[7] (Y Brifysgol Agored, 2022), a ysgrifennwyd gan brif awdur yr erthygl hon (Smith). Cafodd y cwrs hwn ei greu cyn y prosiect ymchwil, ond fel y mae'r teitl yn ei awgrymu, mae'n ymdrin â themâu tebyg. Mae OpenLearn yn blatfform ar-lein a gynhelir gan y Brifysgol Agored, ac mae'r holl gyrsiau ar gael dan drefniant mynediad agored a di-dâl. Cafodd y cyfranogwyr gyfarwyddiadau ar sut i gwblhau'r cwrs cyn sefydlu'r grwpiau ffocws. Roedd y rhai a gwblhaodd y cwrs ac a fu'n aelodau o'r grŵp ffocws dilynol yn derbyn tystysgrif cwblhau 'Prosiect ymchwil Ysgogwyr Newid' a thaleb ar-lein. Trwy gwblhau'r cwrs, roedd cyfle i'r cyfranogwyr ddatblygu eu gwybodaeth ddemocrataidd, cael profiad o ddysgu ar-lein, a datblygu sgiliau myfyrio beirniadol ac astudio annibynnol. Yn anad dim, roedd y cwrs yn darparu sylfaen gyffredin ar gyfer trafodaethau dilynol y grwpiau ffocws.

Ar ôl cwblhau'r cwrs OpenLearn, cynhaliwyd dau grŵp ffocws ar-lein 1.5 awr o hyd gyda'r cyfranogwyr er mwyn archwilio'r math o adnodd/adnoddau sydd ei angen/eu hangen arnynt i wella eu dealltwriaeth o wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol, gan ddefnyddio'r cwrs OpenLearn fel llinell sylfaen. Hefyd, roedd pwyntiau trafod y grwpiau ffocws wedi'u llywio gan ganlyniadau'r arolwg ar-lein. Defnyddiwyd Microsoft Teams i gynnal trafodaethau'r grwpiau ffocws, ac roedd pob grŵp yn cynnwys naw cyfranogwr ac aelod o staff o'r sefydliad ieuenctid perthnasol, yn ogystal â thîm ymchwil y Brifysgol Agored (awduron yr erthygl) a arweiniodd y sesiynau. Defnyddiwyd dull lled-strwythuredig i gynnal y grwpiau ffocws, gan ddefnyddio set o gwestiynau pen-agored a luniwyd ymlaen llaw i lywio'r drafodaeth. Hefyd, roedd y broses yn ddigon hyblyg i roi cyfle i gyfranogwyr archwilio pynciau yn fanylach ac i gymedrolwyr y tîm ymchwil ystyried materion eraill yn dilyn

7 Mae'r cwrs hwn ar gael yn yr URL isod: https://www.open.edu/openlearn/society-politics-law/introduction-making-political-and-social-change

ymatebion y cyfranogwyr. Roedd y gofod hwn i fynd ar drywydd pynciau wrth i'r sgwrs fynd rhagddi (Magaldi a Berler, 2020) yn ddefnyddiol ar gyfer cofnodi safbwyntiau amrywiol a dynameg gyffredinol y grŵp, ac roedd yn cyd-fynd â phrotocol 2 (gwrthdroi perthnasoedd pŵer o'r brig i lawr traddodiadol, a thrwy hynny hwyluso cyfranogiad mwy cyfartal). Roedd y wybodaeth am y prosiect a rannwyd â chyfranogwyr cyn cynnal y grwpiau ffocws yn nodi pwrpas a gwerthoedd y gwaith ymchwil (protocol 3, ymholi a thrafod) a thrwy hynny greu eglurder y pwrpas (protocol 4). Hefyd, roedd y wybodaeth yn amlinellu rhwymedigaethau'r ymchwilwyr, gan gynnwys moeseg a chydsyniad (protocol 5, rhwymedigaethau). Cafwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y grwpiau ffocws/cyswllt â'r cyfranogwyr gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ddynol (HREC) y Brifysgol Agored, a chafwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth gan yr holl gyfranogwyr/eu rhiant/gwarcheidwad os oeddent o dan 18 oed (cyf: HREC/4652/Smith).

Yn dilyn y ddau grŵp ffocws, golygwyd y trawsgrifiadau a gafodd eu creu gan Teams er mwyn sicrhau eu bod yn ddienw.[8] Hefyd, cawsant eu dadansoddi er mwyn dangos y canfyddiadau allweddol, gan ddefnyddio dull thematig a naratif cyfunol i nodi'r themâu allweddol a chanolbwyntio ar brofiadau personol y cyfranogwyr a'r rhyngweithio rhyngddynt (Hecker a Kalpokas, 2023b). Defnyddiwyd dull ailadroddus ac atgyrchol o ymgysylltu â'r data (yn hytrach na dull codio ffurfiol), gan gadw nodiadau manwl a chynnwys dyfyniadau ac arsylwadau arwyddocaol mewn grid dadansoddi data. Roedd y dull hwn yn hwyluso dealltwriaeth fanylach o'r data, gan gofnodi cymhlethdod safbwyntiau cyfranogwyr (St Pierre et al., 2014),[9] ac mae'n cyd-fynd â dull dehongli sy'n rhoi mwy o bwyslais ar greu ystyr cyd-destunol a dehongliad yr ymchwilydd nag ar fframweithiau codio gweithdrefnol.

Datblygu'r adnodd addysgol

Yn ogystal ag ymgynghori â phartneriaid yn y Brifysgol Agored yng Nghymru i sicrhau bod yr adnodd yn bodloni safonau cydymffurfiaeth a hygyrchedd[10] mewnol

8 Gweler 'Grwpiau ffocws', isod, am enghreifftiau o destun dienw.

9 Gweler St Pierre et al. (2014) am drafodaeth ar fanteision dull nad yw'n codio o gynnal gwaith ymchwil ansoddol.

10 Yn cynnwys WCAG 2.2 AA.

ac allanol, buom hefyd yn gweithio gyda phedwar gwirfoddolwr a gymerodd ran yn ein grŵp ffocws blaenorol. Trwy wneud hyn, roedd modd sicrhau bod yr adnodd yn diwallu anghenion ein demograffig targed a'i fod yn cyd-fynd â'r awgrymiadau a wnaed yn y grwpiau ffocws. Gofynnwyd cwestiynau penodol i'r cyfranogwyr ond ni ofynnwyd am adborth cyffredinol gan fod yr adnodd yn seiliedig ar adborth ac argymhellion ar y fformat roeddem eisoes wedi'u casglu yn ogystal â gwaith ymchwil ehangach. O ganlyniad, nid oedd angen adborth arnom ar faterion megis a fyddent yn defnyddio'r fformat a ddewiswyd neu a fyddai'n well ganddynt ddefnyddio dull amgen. Yn hytrach, roedd angen adborth arnom ar fanylion yr adnodd roeddem yn ei greu er mwyn ei fireinio a sicrhau ei fod yn berthnasol i'w bywydau.

Yr allbwn terfynol yw gwefan[11] sydd wedi'i dylunio i roi gwybodaeth ar sail pynciau. Mae'r strwythur hwn yn trefnu'r cynnwys yn feysydd pwnc sydd wedi'u diffinio'n glir ac mae'n helpu defnyddwyr i we-lywio llwybrau gwybodaeth teilwredig ar sail eu dewisiadau. Mae egwyddorion craidd y dyluniad hwn yn cynnwys: 1) trefniadaeth thematig: mae'r cynnwys wedi'i strwythuro yn ôl pynciau neu themâu penodol er mwyn gwella eglurder a pherthnasedd, 2) archwilio dan arweiniad y defnyddiwr: mae defnyddwyr yn gallu dewis meysydd o ddiddordeb yn uniongyrchol, 3) gwe-lywio dan arweiniad: mae'r rhyngwyneb yn cynnig arwyddion cyfeiriadol sy'n helpu'r defnyddiwr i ganfod cynnwys cysylltiedig.

Nod y dull methodolegol yn ei gyfanrwydd oedd bodloni'r ddau syniad cysylltiedig a drafodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, 1) pobl ifanc fel cyd-ddylunwyr yr adnodd[12], 2) gweithgareddau cyfranogol sy'n seiliedig ar gyd-destun. Trwy'r wefan sydd wedi'i chreu gennym, mae'r syniad cyntaf yn gallu gwireddu'r ail syniad - a dinasyddiaeth weithgar yn fwy cyffredinol (e.e. gallai'r wefan roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar rywun i greu ymgyrch).

11 Mae'r wefan derfynol ar gael yn yr URLs isod. Mae pob fersiwn yn cynnwys 'togl' sy'n caniatáu i'r defnyddiwr newid o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg er mwyn bodloni safonau'r Gymraeg:
https://changemakers.wales/cy/ [y fersiwn Gymraeg]
https://changemakers.wales/en/ [y fersiwn Saesneg]

12 Gweler yr adrannau 'cyfyngiadau' a 'trafodaeth' yn y papur hwn am drafodaeth ar sut i wella'r agwedd gyd-ddylunio yn ystod camau'r gwaith ymchwil yn y dyfodol.

Holi pobl ifanc

Wrth gyfuno canlyniadau'r tri arolwg, nodwyd bod ychydig yn fwy o bobl ifanc Cymru yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu i ddylanwadu ar newid gwleidyddol a chymdeithasol drwy Senedd Cymru (66.2 y cant/n=239), yn hytrach na Senedd y DU (65.8 y cant/n=239).[13] Fodd bynnag, yn gyffredinol roeddent yn llai hyderus am lefel eu dealltwriaeth o *sut* i wneud newid drwy Senedd Cymru (hyder net: 39.6 y cant/n=143) o'i gymharu â Senedd y DU (hyder net: 41.5 y cant/n=149).[14]

Er eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am eu gallu i ddylanwadu ar newid yng Nghymru, awgrymodd canlyniadau'r arolwg nad oes gan lawer o bobl ifanc yng Nghymru wybodaeth am yr adnoddau sydd eu hangen i effeithio ar newid yn Senedd y DU a Senedd Cymru. Mae'r rhwystrau yn gallu deillio o logisteg - diffyg gwybodaeth am sut i gysylltu â'r person neu'r lle cywir. Yn wir, roedd canlyniadau'r arolwg yn awgrymu nad yw llawer o bobl ifanc yn deall sut mae seneddau yn gweithredu na'r hyn y maent yn canolbwyntio arno. Gallai hyn ddeillio o ddiffyg pwyslais ar y mater hwn yn y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd. Mewn dau o'r arolygon (arolwg myfyrwyr y Brifysgol Agored a'r arolwg marchnata allanol), dywedodd canran uchel o'r ymatebwyr (86.7 y cant/n=52 ar gyfer yr arolwg myfyrwyr, a 61 y cant/n=61 ar gyfer yr arolwg marchnata allanol) nad oeddent wedi dysgu am newid gwleidyddol neu gymdeithasol yn yr ysgol uwchradd, ac roedd 43.3 y cant/n=157 wedi dewis yr ateb hwn ar draws y tri arolwg.

Dangosodd yr arolygon bwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol wrth ddysgu am wneud newid. Mewn dau o'r arolygon (arolwg myfyrwyr y Brifysgol Agored a'r arolwg marchnata allanol), roedd dros hanner yr ymatebwyr wedi dewis y cyfryngau cymdeithasol fel ffynhonnell arwyddocaol o blith naw ffynhonnell wybodaeth bosibl (roedd traean o'r ymatebwyr i'r arolwg cyfryngau cymdeithasol wedi dewis hyn). Roedd llawer iawn wedi dewis Facebook, Tik Tok, Instagram a Twitter/X fel ffynonellau cyfryngau cymdeithasol allweddol. Fodd bynnag, er bod y cyfryngau cymdeithasol yn gallu bod yn ffynhonnell wybodaeth allweddol, roedd llawer o ymatebwyr yn credu eu bod yn llai defnyddiol ar gyfer deall sut i wneud newid drwy

13 Roedd barn yr ymatebwyr i'r arolwg myfyrwyr y Brifysgol Agored a'r arolwg marchnata allanol yn fwy cadarn ar y mater hwn na barn yr ymatebwyr i'r arolwg cyfryngau cymdeithasol.

14 Fel yr uchod.

Senedd Cymru (defnyddioldeb net: 47 y cant/n=91) na Senedd y DU (defnyddioldeb net: 56.7 y cant/n=110).

O ran dyluniad, cwrs ar-lein oedd y fformat mwyaf poblogaidd ar gyfer dysgu am sut i wneud newid, ac roedd dewisiadau ar-lein eraill yn boblogaidd hefyd, megis adnodd fideo, llyfryn/testun ar-lein, gwefan, ac ymgyrch/porthiant cyfryngau cymdeithasol. Roedd ymatebwyr yn awyddus i sicrhau bod modd cwblhau adnoddau yn gyflym – 10–20 munud oedd yr ateb mwyaf poblogaidd, yna 5–10 munud. O ran elfennau dylunio pwysig, roedd iaith hawdd ei deall a chwmpasu ystod o ddulliau dysgu yn atebion poblogaidd. O ran elfennau'r cynnwys, roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys esboniadau o sut mae sefydliadau gwleidyddol yn gweithio, esboniadau o faterion/meysydd/deddfau sy'n berthnasol i bob Senedd, ac esboniadau o'r bobl a'r lleoedd i gysylltu â nhw.[15]

Grwpiau ffocws

Man cychwyn y grwpiau ffocws oedd gwerthuso ymgysylltiad y cyfranogwyr â'r cwrs 'Introduction to making political and social change'. Yn gyffredinol, awgrymodd canfyddiadau'r grŵp ffocws fod y cwrs yn ddefnyddiol ar gyfer dealltwriaeth gyffredinol o sut i wneud newid gwleidyddol fel dinasyddion gweithgar, ond yn llai defnyddiol ar gyfer deall manylion gwneud newid trwy sefydliadau gwleidyddol a thu allan iddynt. Hefyd, nodwyd nad yw cynnwys/nodau'r cwrs yn cael eu cyflwyno mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb.

Roedd prif flaenoriaethau'r cyfranogwyr ar gyfer yr adnodd addysgol newydd yn cynnwys eglurder gweledol, rhai prosesau rhyngweithiol, canllawiau ar gyfer gwledydd penodol, a chyd-destun gwleidyddol. Dangosodd y grwpiau ffocws fod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn credu mai adnodd ar-lein yw'r cyfrwng sy'n apelio fwyaf ar gyfer dysgu sut i ymgysylltu'n wleidyddol. Roeddent yn teimlo y gellid gwneud rhai newidiadau i'r adnodd presennol (rydym yn cydnabod bod yr adnodd hwn wedi'i ddylunio'n wreiddiol ar gyfer ymgysylltiad mwy manwl â dulliau amrywiol o fod yn ddinasyddion gweithgar).

15 Oherwydd amseriad yr arolwg marchnata allanol mewn perthynas â chynllun/datblygiad yr adnodd addysgol, cafodd y cwestiynau am ddyluniad eu cynnwys yn y ddau arolwg cyntaf yn unig, ac nid yn yr arolwg marchnata allanol.

Hefyd, daeth yn amlwg bod angen i ni greu adnodd a oedd yn canolbwyntio'n gliriach ar newid gwleidyddol a chymdeithasol (nodwyd bod newid cymdeithasol yn elfen ddiffygiol/aneglur). Roedd y pwyntiau allweddol a godwyd gan lawer o'r bobl y buom yn siarad â nhw yn cynnwys pwysigrwydd cyd-destun hanesyddol-gymdeithasol a gwleidyddol-gymdeithasol, cyflwyno cysylltiadau amlhaenog rhwng gwledydd y DU, a dehongli cymhlethdodau sefydliadau gwleidyddol unigol. Awgrymodd adborth gan y grŵp ffocws fod angen gwneud hyn mewn ffordd drawiadol yn weledol, gan ymgorffori elfennau rhyngweithio, lliw a dyluniad hwyliog. Roedd pobl ifanc yn teimlo bod senarios bywyd go iawn yn 'ffordd i mewn' ddefnyddiol y gallent uniaethu â nhw. Un gofyniad allweddol a nodwyd yn gyson oedd yr angen am ganllawiau ar wledydd penodol er mwyn dysgu mwy am natur pŵer cysylltiedig a pha sefydliadau sy'n gyfrifol am faterion gwleidyddol penodol. Mae dau sylw yn crynhoi hyn:

> Fel rhan o'r cyflwyniad i'r seneddau datganoledig ar ddechrau'r adnodd, byddai wedi bod yn dda cael rhestr o'r pwerau sydd gan y Seneddau ar gyfer pobl sydd ddim wir yn deall sut mae'n gweithio … Er mwyn i bobl ddeall bod Cymru yn gyfrifol am reoli pethau fel trafnidiaeth. (Grŵp ffocws 2, cyfranogwr 1)

> Mae'n gallu bod yn rhwystredig os ydych chi'n ceisio dod o hyd i'r llwybr cywir. Felly, os ydych chi'n teimlo'n gryf am bwnc penodol, at bwy ydych chi'n troi ac am faint o amser fyddwch chi wrthi? … Ond rwy'n credu trwy egluro mai Llywodraeth Cymru sy'n gwneud hyn ac rydych chi'n mynd yma, ond nid Llywodraeth Cymru sy'n gwneud hyn, a rhaid i chi fynd i Senedd y DU am hynny, rwy'n credu byddai hynny'n helpu i sicrhau bod y materion yn cael eu trosglwyddo o'r unigolyn i'r Aelod Seneddol, ac ymlaen i ddadl, cyn gynted â phosibl. (Grŵp ffocws 1, cyfranogwr 1)

O ran canfyddiadau penodol, nododd y rhan fwyaf o gyfranogwyr fod eu dealltwriaeth gysyniadol wedi gwella, ond roedd y canlyniadau'n fwy cymysg mewn perthynas â phrosesau gwleidyddol a chynnwys y cwrs. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (n=15/19) fod y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o ystyr 'dinasyddiaeth weithgar' (canfyddiad allweddol 1 grŵp ffocws). Dim ond un cyfranogwr a ddywedodd nad oedd y cwrs wedi gwella'r elfen hon. Fel y dywedodd un cyfranogwr, '… mae'r enghreifftiau bywyd go iawn o sut y gallwch chi fod yn ddinesydd gweithgar yn taflu goleuni ar y syniad o beth yw dinasyddiaeth weithgar' (Grŵp ffocws 2, cyfranogwr 1).

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (n=14/19) fod y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o sut i wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol fel dinasyddion gweithgar (canfyddiad allweddol 2):

> Rwy'n credu i mi … roedd yn fy helpu i ddeall pwy i gysylltu â nhw a beth sy'n digwydd wedyn. (Grŵp ffocws 1, cyfranogwr 2)
>
> Rydych chi'n gwybod ei bod yn bosibl mynd i'r rhan honno o'r wefan a gweld [pwy i gysylltu â nhw], ac roedd hi'n ddefnyddiol iawn i mi fod dolenni ar gael yn y cwrs ei hun i fynd â fi'n uniongyrchol i ble roedd angen i mi fynd i gael golwg agosach. Fel arall, fyddwn i ddim wedi gwybod ble i ddechrau chwilio am y math hynna o wybodaeth. (Grŵp ffocws 1, cyfranogwr 3)

Fodd bynnag, roedd dealltwriaeth yn mynd yn llai eglur pan oedd cyfranogwyr yn myfyrio ar lwybrau sefydliadol penodol tuag at newid. Dim ond pedwar o'r cyfranogwyr (n=4/19) a ddywedodd fod y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o sut i wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU drwy Senedd y DU/y seneddau datganoledig (canfyddiad allweddol 3). Dywedodd tua dwy ran o dair (n=12/19) ei bod yn bosibl bod y cwrs wedi gwneud hynny. Roedd y patrwm hwn hyd yn oed yn fwy amlwg mewn perthynas â llwybrau heblaw rhai seneddol. Dim ond dau o'r cyfranogwyr (n=2/19) a ddywedodd fod y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o sut i wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol yn y DU y tu allan i Senedd y DU/y seneddau datganoledig (canfyddiad allweddol 4). Dywedodd bron i ddwy ran o dair (n=10/19) nad oedd y cwrs wedi gwella eu dealltwriaeth o hyn, gyda'r gweddill (n=6/19) yn dweud ei bod yn bosibl bod y cwrs wedi gwneud hynny.

> Roedd ganddo rai dolenni defnyddiol iawn, felly … roedd yr adnoddau y gwnaethoch chi eu dangos yn ddefnyddiol iawn yn fy marn i, ond roedd y wybodaeth ei hun yn edrych tipyn bach fel dogfen wybodaeth, gyda gormod o wybodaeth, rhyw fath o werslyfr. (Grŵp ffocws 1, cyfranogwr 4)
>
> O ran y wybodaeth am Senedd y DU, byddwn i'n dweud ei bod ychydig yn rhy amwys yn yr ystyr ei bod yn rhoi'r argraff ei bod yn hawdd iawn cysylltu ag arglwydd neu ofyn i'r Senedd drafod eich dadl. Doedd y wybodaeth ddim wir yn nodi pa mor anodd yw hynny yn fy marn i. Roedd y wybodaeth yn dda, ond ddim yn ymarferol o bosibl. (Grŵp ffocws 2, cyfranogwr 2)
>
> Byddwn i'n dweud bod y cwrs yn gwneud hynny oherwydd, yn amlwg, mae'n dibynnu ar y mater rydych chi'n ymgyrchu drosto, oherwydd ar gyfer rhywbeth fel mewnfudo, yn amlwg byddai'r ddeiseb yn mynd trwy Senedd y DU, tra bod mater yn ymwneud â thrafnidiaeth Cymru yn mynd trwy'r Senedd. Felly, rwy'n credu ei fod yn eich helpu i ystyried natur y mater dan sylw, beth yw pwrpas eich deiseb. Ond eto, byddai'n ddefnyddiol cael rhestr. (Grŵp ffocws 2, cyfranogwr 3)

Codwyd pryderon hefyd am gyflwyno'r cwrs ei hun. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr (n=14/19) yn meddwl bod fformat amgylchedd dysgu rhithwir y cwrs

yn ennyn eu diddordeb, ac nid oedd unrhyw gyfranogwyr yn credu bod hyd y cwrs yn gywir (canfyddiad allweddol 5).

> Er nad yw'n effeithio ar y deilliant dysgu o reidrwydd, byddai pobl yn awyddus i wneud y cwrs pe bai ychydig yn fwy apelgar a hwyliog yn weledol, oherwydd pan welais i'r cwrs roedd yn cynnwys llawer o ysgrifennu a doedd e ddim yn cydio ynddoch chi. Ac felly, trwy gynnwys mwy o luniau a mwy o liwiau neu rywbeth sy'n gwneud i'r cwrs edrych ychydig yn fwy deniadol ac efallai ychydig yn fwy modern, byddwn i wedi bod ychydig yn fwy brwdfrydig am ei wneud e. (Grŵp ffocws 1, cyfranogwr 5)
>
> Roedd yn teimlo fel bod gormod i'w ddarllen. Rwy'n cael trafferth darllen blociau enfawr o destun … ond roedd y gweithgareddau yn hwyl ar y cyfan, ac roedd y cynnwys ei hun yn eithaf difyr, ond roedd y ffaith ei fod wedi'i gyflwyno fel bloc o destun bloc ac yna bloc arall o destun wedi methu ag ennyn fy niddordeb yn yr ystyr hwnnw. (Grŵp ffocws 2, cyfranogwr 4)

Ochr yn ochr â data'r arolwg, roedd y sylwadau hyn yn hanfodol i'n helpu i ddatblygu cam nesaf y prosiect Ysgogwyr Newid, a nodi pa fath o adnodd fyddai'n diwallu orau anghenion y demograffig targed.

Creu'r adnodd addysgol

Ar ôl triongli canfyddiadau'r arolygon, y grwpiau ffocws a'r adolygiad o lenyddiaeth a pholisïau, gwnaethom ddod i'r casgliad mai gwefan y gellir ei defnyddio'n gyflym sy'n cynnwys elfennau rhyngweithiol fyddai'r adnodd gorau i ddiwallu anghenion ein demograffig targed.

Cam 1 – dylunio'r wefan

Ein gweithgaredd allweddol cyntaf oedd creu cynllun amlinellol ar gyfer dyluniad/arddull y wefan, ei seilwaith, a'r testun/cynnwys cychwynnol ar gyfer pob adran o'r wefan; roedd yr olaf yn seiliedig yn rhannol ar y cwrs OpenLearn gwreiddiol – wedi'i ailysgrifennu fel y bo'n briodol – ynghyd â thestun newydd er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu'r anghenion a amlinellwyd gan y cyfranogwyr. Yna fe wnaethom logi cwmni dylunio gwefannau allanol i'n helpu i roi ein cynllun ar waith.

Roedd ymatebion cyfranogwyr y grwpiau ffocws wedi codi themâu tebyg, ac roedd yr ymatebion hyn yn allweddol i ddylunio'r wefan. Yn gyntaf, fe wnaethant

ymateb yn dda i'r syniad o greu adnodd lliwgar, clir, a pherthnasol, yn cynnwys iaith hawdd ei deall. Hefyd, roedd yn well ganddynt gael llai o fanylion esboniadol a dyluniad mwy clir a rhesymeg weledol. Hefyd, roeddent yn teimlo y dylai'r adnodd fod yn symlach ac yn gyfeiriol, h.y. dylai weithredu fel 'siart llif' i gyfeirio pobl ifanc o wraidd eu problem neu senario tuag at lwybr/llwybrau posibl ar gyfer ymgysylltu â systemau gwleidyddol a allai eu cefnogi i roi newid ar waith. Roedd dealltwriaeth o newid gwleidyddol a chymdeithasol yn gyfyngedig ac yn amrywiol yn aml, felly roedd pobl ifanc eisiau adnodd a allai eu helpu i ymateb 'yn y fan a'r lle' wrth iddynt ddod yn ymwybodol o fater cymdeithasol neu wleidyddol, heb iddynt orfod gwybod ble i edrych am wybodaeth. Yn olaf, roeddent yn teimlo y byddai gwefan yn fwyaf addas gan y byddai'n gallu darparu gwybodaeth ar unwaith trwy ffonau clyfar. Mae'r ffaith hon yn dangos pwysigrwydd hygyrchedd, yn ogystal â deall sut mae pobl ifanc yn defnyddio technoleg ac yn cael mynediad at wybodaeth.

Felly, roedd gan y wefan ddyluniad symlach, cyson ond gweledol ddiddorol, cynllun clir a hygyrch, a seilwaith a oedd yn hwyluso ymgysylltiad â'r dulliau gwahanol o wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol a'r materion cymdeithasol allweddol sy'n berthnasol i bobl ifanc. Un penderfyniad pwysig oedd defnyddio dull 'llwybr' seiliedig ar bynciau a oedd yn canolbwyntio ar SUT mae pobl ifanc yn gallu gwneud newid mewn ffyrdd sy'n teimlo'n hygyrch iddynt, h.y. cyfeirio pobl ifanc o wraidd eu problem neu senario tuag at lwybr/llwybrau posibl ar gyfer ymgysylltu â systemau (gwleidyddol) a allai eu cefnogi i roi newid ar waith, gan ystyried y cyd-destun lleol (h.y. Cymru a'r DU ehangach a phwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am faterion gwahanol).

Er mwyn ein helpu i ddewis nifer penodol o bynciau i'w cynnwys ar y wefan, defnyddiwyd y wybodaeth o'r arolwg marchnata allanol. Y materion pwysicaf i'r bobl ifanc o Gymru a holwyd oedd iechyd meddwl/iechyd (46 y cant o 100 o ymatebwyr), cyfiawnder cymdeithasol a hawliau cyfartal (36 y cant), yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd (30 y cant), addysg (36 y cant), a'r economi (24 y cant). Ar ôl croesgyfeirio'r canfyddiadau hyn gyda'r grwpiau ffocws a'r ymchwil ddesg ehangach, penderfynwyd rhoi sylw i'r materion cymdeithasol canlynol ar y wefan: yr hinsawdd a'r amgylchedd, economi a chyllid, addysg, eithafiaeth, cydraddoldeb rhywiol, materion byd-eang, cydraddoldeb LHDTCRh+, mudo, iechyd y corff a'r meddwl, cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, cydraddoldeb hil, a chyfiawnder cymdeithasol.

Yn dilyn adborth y grŵp ffocws, penderfynwyd y dylai'r wefan gynnwys enghreifftiau o bobl ifanc o Gymru sydd wedi cael effaith amlwg trwy eu

dinasyddiaeth weithgar, fel Angel Ezeadum sy'n Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, a Poppy Stowell-Evans sy'n Llysgennad Hinsawdd Ieuenctid Cymru. Byddai'r enghreifftiau hyn yn hygyrch ac yn berthnasol, ochr yn ochr ag enghreifftiau o ffigyrau cyhoeddus mwy adnabyddus.

Cam 2 – adborth datblygiadol

Fe wnaethom weithio gyda phedwar o gyfranogwyr ein grŵp ffocws blaenorol i sicrhau bod y wefan yn diwallu eu hanghenion. Roedd yr ymateb i'r wefan yn gadarnhaol ar y cyfan, a nodwyd bod y wefan yn weledol ddiddorol ac yn hawdd ei defnyddio, a'i bod yn egluro sut i wneud newid a sut mae seneddau yn gweithio yng nghyd-destun datganoli. Serch hynny, fe aethom ati i wneud rhai newidiadau mewn ymateb i adborth y cyfranogwyr, gan gynnwys: newid y testun agoriadol ar y dudalen rhagarweiniad er mwyn sicrhau nad yw gwneud newid yn codi ofn ar bobl ifanc (gan nodi'n glir bod modd gwneud newid trwy ddulliau heblaw Senedd y DU a Senedd Cymru); golygu darnau eraill o destun, megis newid 'ymuno â'r ysgogwyr newid' i 'bod yn rhywun sy'n gwneud newid' (er mwyn lleihau'r argraff bod angen ymaelodi â chlwb), egluro rhai adrannau neu esbonio rhai cysyniadau yn well; yn hytrach na lleihau nifer y pynciau, penderfynwyd cadw'r deuddeg gwreiddiol ond newid rhai ohonynt rhyw fymryn i'w gwneud yn fwy perthnasol; newid rhai o'r enghreifftiau i ysbrydoli pobl ifanc er mwyn eu gwneud yn fwy perthnasol (mwy o enghreifftiau o bobl o Gymru ac oedolion ifanc); a chadw'r opsiwn newid thema er mwyn i gyfranogwyr allu dewis o blith pedwar lliw ar gyfer y wefan (pinc yw'r lliw diofyn).

Mae gan y wefan derfynol yr adrannau canlynol:

Mae **tudalen flaen** y wefan yn cynnwys teitl y wefan ('Ysgogwyr Newid'), testun rhagarweiniol sy'n esbonio'r agwedd ddatganoledig/genedlaethol ar wneud newid (h.y. gallwch wneud newid yn lleol, yng Nghymru, ac yn y DU), ac is-bennawd sy'n datgan bod camau bach yn arwain at newidiadau mawr (er mwyn sicrhau bod y cysyniad o wneud newid yn fwy hygyrch). Hefyd, mae'n rhestru'r deuddeg mater allweddol o dan y teitl 'beth sy'n bwysig i chi?' Mae modd clicio ar faterion unigol i gael mwy o wybodaeth.

Hefyd, mae'r tab **'materion'** yn rhestru pob mater ynghyd ag ychydig bach o destun rhagarweiniol. Mae clicio ar y tab hwn yn arwain y defnyddiwr at ragor o wybodaeth am bob mater. Er enghraifft, mae **'yr hinsawdd a'r amgylchedd'** yn cynnwys rhagor o wybodaeth am beth y mae eraill yn ei wneud a beth mae

unigolion yn gallu ei wneud (gan gynnwys dolenni i wefannau perthnasol eraill). Hefyd, mae'n cynnwys adran 'pwy sy'n gyfrifol' sy'n defnyddio symbol tic pinc i ddangos pa sefydliad sy'n gyfrifol (cynghorau lleol, Senedd Cymru, neu Senedd y DU). Gall defnyddwyr glicio ar yr ateb perthnasol wedyn i gael rhagor o wybodaeth. Hefyd, mae defnyddwyr yn gallu clicio ar y geiriau 'bod yn rhywun sy'n gwneud newid' sy'n rhoi awgrymiadau iddynt am sut i geisio gwneud newid (fel creu deiseb).

Mae'r tab **'gweithredu'** yn darparu gwybodaeth am sut i weithredu er mwyn gwneud newid trwy sefydliadau gwleidyddol a thu allan iddynt. Gellir clicio ar bob adran i gael rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau. Mae defnyddwyr yn gallu mynd yn syth at yr adran hon os nad oes ganddynt fater penodol neu os ydynt eisiau canfod gwybodaeth fwy cyffredinol.

Mae'r tab **'ysbrydoliaeth'** yn rhestru pedair enghraifft – dau berson enwog a dau ddinesydd cyffredin o Gymru. Gellir clicio ar bob un i gael rhagor o wybodaeth, sy'n amlinellu'r hyn a wnaethant, a oeddent yn llwyddiannus ac unrhyw heriau.

Mae'r tab **'datganoli'** yn esbonio sut mae gwleidyddiaeth yng Nghymru yn gweithio a pha gyfrifoldebau sydd gan bob sefydliad.

Hefyd, mae'r tab **'gwybodaeth'** yn esbonio gwreiddiau'r prosiect, ac mae'r tab **'Saesneg'** yn newid y testun Cymraeg i'r Saesneg (ac i'r gwrthwyneb ar fersiwn Saesneg y wefan).

Cyfyngiadau

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod potensial i ddatblygu'r wefan ymhellach. Yn wir, cafwyd awgrymiadau eraill gan y bobl ifanc a gymerodd ran yn ein gwaith ymchwil, a byddwn ni'n gallu cynnwys yr awgrymiadau hyn yn y wefan neu eu defnyddio ar gyfer camau dilynol y prosiect. Mae awgrymiadau ar gyfer y wefan yn cynnwys: mwy o elfennau rhyngweithio, megis cwisiau/profion dysgu a chyfleusterau gwneud nodiadau/uwcholeuo; elfen gêm, e.e. gêm sy'n profi sgiliau gwneud newid a'r penderfyniadau sydd angen eu gwneud i gael canlyniad cadarnhaol; elfen deallusrwydd artiffisial, e.e. rhyngweithio â sgwrsfot i ofyn cwestiynau, neu ei ddefnyddio i adolygu/rhoi adborth ar atebion unigolyn; fideos (fel pobl sydd wedi gwneud newid sy'n gallu ysbrydoli eraill yn siarad am sut aethon nhw ati i wneud newid); mwy o astudiaethau achos; geirfa/tynnu sylw at eiriau allweddol. Y tu allan i'r wefan, mae'r awgrymiadau'n cynnwys: canolbwyntio mwy ar newid cymdeithasol

a gwleidyddol mewn ysgolion er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, gan gynnwys cyfleoedd i drafod a dadlau; darparu adnoddau addysg hygyrch ar hyd y daith addysgol; defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth.

Yn fwy cyffredinol, hoffem wella elfennau cyd-ddylunio'r prosiect. Yn wir, mae'n deg dweud bod y prosiect hyd yma wedi mabwysiadu elfennau cyd-ddylunio, gan weithio gyda chyfranogwyr i siapio adnoddau, yn hytrach na'u dylunio'n llawn. Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn yn y dyfodol, gellid ymestyn y pum protocol cyd-ddylunio cwricwlwm dinasyddiaeth a nodwyd gan Bessant et al. (2016) trwy greu model mwy parhaus o sicrhau cyfranogiad pobl ifanc. Gallai recriwtio (protocol 1) symud y tu hwnt i drefniant hunanddethol am gyfnod penodol tuag at rolau cynghori mwy hirdymor i bobl ifanc, gan roi cyfle i gyfranogwyr lunio nid yn unig allbynnau penodol ond hefyd blaenoriaethau ymchwil a meini prawf gwerthuso. Byddai hyn yn helpu i danseilio ymhellach y perthnasoedd pŵer o'r brig i lawr traddodiadol (addysgwr i fyfyriwr/person ifanc), a thrwy hynny hwyluso cyfranogiad mwy cyfartal (protocol 2). Gellid cryfhau ymholi, trafod ac eglurder pwrpas (protocol 3) trwy ymgorffori cyfnodau myfyrio ar y cyd trwy gydol y cylch ymchwil, gan roi cyfle i bobl ifanc adolygu, beirniadu, ac ailddiffinio nodau'r prosiect wrth i'w dealltwriaeth wleidyddol ddatblygu (yn ei dro, bydd yn hyn gwella eglurder pwrpas (protocol 4) ac yn galluogi dinasyddiaeth weithgar). Yn olaf, gellid datblygu'r protocol rhwymedigaethau (5) trwy ffurfioli llwybrau i gyfranogwyr roi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar waith y tu hwnt i'r prosiect ei hun - er enghraifft trwy gysylltiadau parhaus ag ysgolion, sefydliadau ieuenctid, neu wneuthurwyr polisi - a thrwy hynny atgyfnerthu galluogedd parhaus pobl ifanc fel cyfranogwyr gwleidyddol yn hytrach na defnyddio dull cyd-ddylunio nad yw ond yn darparu profiad ar wahân sy'n perthyn i brosiect penodol.

Trafodaeth

Er mwyn gwella dealltwriaeth wleidyddol ymhlith pobl ifanc, mae angen adnoddau sydd nid yn unig yn addysgiadol ond sydd hefyd wedi'u cyd-ddylunio, yn hygyrch ac yn seiliedig ar eu bywydau bob dydd. Mae'r llenyddiaeth a drafodwyd uchod yn awgrymu, pan fydd pobl ifanc yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith o lunio deunyddiau addysgiadol, mae'r adnoddau hyn yn fwy tebygol o fod yn berthnasol i'w

profiadau, meithrin ymgysylltiad dyfnach, a chefnogi cyfranogiad democrataidd/dinasyddiaeth weithgar. Mae'r prosiect 'Ysgogwyr Newid' yn y Brifysgol Agored yn datblygu'r dull gweithredu hwn, gan ddefnyddio Cymru a phobl ifanc 16–24 oed fel astudiaeth achos. Trwy ddulliau ymchwil cymysg, mae'r prosiect yn archwilio gwybodaeth pobl ifanc o Gymru am systemau gwleidyddol y DU, eu dealltwriaeth o sut i wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol, a'r mathau o adnoddau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddinasyddion gwybodus sydd wedi'u grymuso.

Mae'r papur hwn wedi cyflwyno canfyddiadau allweddol y prosiect, gan fanylu ar waith ar y cyd i ddatblygu gwefan ryngweithiol amlieithog sydd â'r nod o gefnogi dysgu ac ymgysylltu gwleidyddol ymhlith pobl ifanc 16–24 oed yng Nghymru. Y tu hwnt i greu adnodd addysgol defnyddiol, mae'r gwaith ymchwil yn cyfrannu at sgyrsiau ehangach am addysg wleidyddol a dinasyddiaeth – y tu mewn a'r tu allan i leoliadau addysg ffurfiol – trwy bwysleisio pwysigrwydd eglurder ynghylch llywodraethu datganoledig. Yn wir, mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod llawer o bobl ifanc yn ansicr am rolau a chyfrifoldebau lefelau gwahanol o lywodraeth, sut mae'r rhain yn effeithio ar eu bywydau bob dydd, a ble mae newid yn digwydd/pwy sydd â'r pŵer i wneud newidiadau penodol. Felly, rydym yn dod i'r casgliad ei bod yn hanfodol bwysig bod adnoddau dinasyddiaeth, yn yr ysgol a thu hwnt, yn cynnwys y cyd-destun pwysig hwn. Hefyd, mae ein gwaith ymchwil yn dangos pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol, ac mae'n amlwg bod adnoddau ar-lein yn ennyn diddordeb llawer o bobl ifanc mewn addysg wleidyddol yn fwy nag unrhyw gyfrwng arall.

Mae'r canfyddiadau'n tanlinellu pwysigrwydd dulliau o gyflwyno addysg wleidyddol sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, sy'n hygyrch yn ddigidol ac sy'n berthnasol i gyd-destunau penodol. I addysgwyr ac ymarferwyr, mae'r gwaith hwn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddylunio adnoddau dysgu er mwyn sicrhau eu bod yn briodol. Trwy drin pobl ifanc nid yn unig fel dysgwyr ond fel cyfranogwyr gwleidyddol sydd ag arbenigedd yn eu bywydau eu hunain, mae dulliau cyd-ddylunio fel y rhai a ddefnyddiwyd yn 'Ysgogwyr Newid' yn dechrau ail-lunio pwrpas addysg wleidyddol/dinasyddiaeth. Maent yn herio naratifau negyddol yn ymwneud ag ymddieithrio pobl ifanc ac yn sicrhau bod pobl ifanc yn ganolog i'r broses o lunio dyfodol democrataidd mwy ymatebol a chynhwysol.

Y tu hwnt i gynnwys y cwricwlwm, mae angen newid ehangach i sut mae sefydliadau yn deall galluogedd gwleidyddol pobl ifanc, nid fel dinasyddion y dyfodol, ond fel cyfranogwyr presennol sy'n llywio ac yn dylanwadu ar eu hamgylcheddau dinesig. Mae'n bwysig nodi bod y canfyddiadau yn atgyfnerthu tystiolaeth gynyddol

nad yw dysgu dinesig ystyrlon yn gallu digwydd ar ei ben ei hun. Yn hytrach na thrin addysg wleidyddol/dinasyddiaeth fel maes pwnc ar wahân, rhaid cynnwys yr addysg hon ym mhob rhan o'r cwricwlwm ac oddi mewn i ddiwylliannau ysgolion a chymunedau. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd cysylltu addysg democratiaeth â'u profiadau bywyd eu hunain - gan gynnwys materion cyfiawnder cymdeithasol yn eu cymunedau, gweithredu digidol, a gweithredu ar newid hinsawdd. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith ymchwil cyfoes sy'n nodi pwysigrwydd 'gwleidyddiaeth bob dydd' (Harris et al., 2010) a'r angen i ymdrin ag ymgysylltiad dinesig fel proses wedi'i chyd-gynhyrchu sy'n ystyried cysylltiadau a lleoliad. Mae datblygiad gwleidyddol pobl ifanc yn digwydd mewn sawl gofod: mewn amgylcheddau digidol, diwylliannau cyfoedion, bywyd teuluol, a chyd-destunau addysgol anffurfiol. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd adnoddau sydd wedi'u cyd-ddylunio, rhaid iddynt gael eu gosod yn yr ecoleg ddysgu ehangach hon, gan greu dolenni adborth atgyfnerthol rhwng cwricwla ffurfiol, mentrau llais pobl ifanc, arferion cyfryngau digidol, a diwylliant ysgolion. Fel y mae Harris, Wyn a Younes (2010) yn ei ddadlau, mae pobl ifanc eisoes yn cymryd rhan yn yr hyn y gellid ei alw'n 'wleidyddiaeth bob dydd' - math o ymgysylltiad sy'n cael ei anwybyddu yn aml gan systemau addysg traddodiadol. Dylai addysg ddinesig wedi'i chyd-dylunio nid yn unig adlewyrchu realiti bywyd pobl ifanc, ond hefyd gysylltu mewn ffordd ystyrlon â'u profiad addysgol ehangach er mwyn meithrin llythrennedd democrataidd mwy parhaus a pherthnasol.

Gwaith ymchwil yn y dyfodol

Bydd cam nesaf ein prosiect yn canolbwyntio ar werthuso *effaith* y wefan sydd newydd ei datblygu ar ddealltwriaeth pobl ifanc o Gymru 16–24 oed o wneud newid gwleidyddol a chymdeithasol yng Nghymru a'r DU ehangach. Bydd hyn hefyd yn gyfle i ni gasglu adborth ar effeithiolrwydd y wefan mewn perthynas â'r ail elfen o gyfranogiad pobl ifanc a ddisgrifiwyd uchod – pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynnwys cyd-greu/cyfranogiad wrth ymgysylltu ag addysg a gwybodaeth wleidyddol/dinasyddiaeth. Trwy ddadansoddi data/adborth ymchwil ansoddol a meintiol (gan gynnwys metrigau ymgysylltiad defnyddwyr, sydd wedi'u cynnwys yn y wefan ac sy'n cael eu holrhain ganddi, megis nifer yr ymweliadau, a sut mae pobl yn dod o hyd i'r wefan/eu lleoliad), gallwn gasglu gwybodaeth ddefnyddiol am effeithiolrwydd y wefan wrth gyflawni ei nodau arfaethedig. Bydd yr asesiad

beirniadol hwn nid yn unig yn dilysu perfformiad presennol y wefan ond hefyd yn arwain gwelliannau yn y dyfodol er mwyn gwasanaethu cynulleidfa darged y prosiect yn well. Yn ogystal, wrth ddatblygu'r wefan a/neu adnoddau eraill, hoffem ddefnyddio methodoleg gyd-ddylunio fwy cyflawn, gan ddatblygu'r dull ffurfiannol a ddefnyddiwyd hyd yn hyn, gan gynnwys archwilio a chymhwyso protocolau Bessant et al. (2016) i raddau mwy.

Yn ogystal, bydd y wefan yn cynnwys gwaith y cynllun peilot sydd newydd ei lansio, 'Newid - Academi Ysgogi Newid Cenedlaethau'r Dyfodol', partneriaeth rhwng y Brifysgol Agored yng Nghymru, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Coleg Penybont, ac Unloc (Y Brifysgol Agored, 2026). Nod yr Academi yw cynorthwyo pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth wleidyddol sydd eu hangen i arwain newid cymdeithasol a gwleidyddol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae strwythur yr Academi wedi'i gynllunio'n benodol i roi blaenoriaeth i ddysgu a myfyrio ailadroddus, gan roi cyfle i bobl ifanc ddylanwadu ar ddatblygiad rhaglenni'r dyfodol ar sail eu profiadau o gyfranogi ac ymarfer gwneud newid. Yn yr ystyr hwn, mae'n ymestyn y pum protocol cyd-ddylunio cwricwlwm dinesig a nodwyd gan Bessant et al. (2016) trwy gefnu ar ymgynghori tymor byr a symud tuag at gyfranogiad mwy parhaus gan bobl ifanc ar hyd oes y prosiect. Yn ogystal â bod yn ddysgwyr neu'n fuddiolwyr, mae cyfranogwyr yn gyd-grewyr sy'n darparu gwybodaeth a fydd yn llywio cynnwys a dulliau cyflwyno'r rhaglen ar ôl y cynllun peilot. Trwy ymgorffori dull cyd-ddylunio mewn cynllun peilot sy'n cysylltu gwaith ymchwil, ymarfer a pholisi, mae'r Academi yn cryfhau'r llwybr rhwng addysg wleidyddol sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc ac effaith ddinesig amlwg yng Nghymru.

Mae'r wefan Ysgogwyr Newid yn adnodd allweddol a gaiff ei defnyddio gan fyfyrwyr sy'n cymryd rhan ym mlwyddyn beilot yr Academi Ysgogi Newid (2025-2026). Mae'r cysylltiad hwn yn dangos effaith gynyddol y prosiect y tu hwnt i'r byd academaidd, gan lywio mentrau sy'n gysylltiedig â Llywodraeth Cymru i gryfhau ymgysylltiad democrataidd, cyfranogiad pobl ifanc, a gallu dinesig hirdymor yng Nghymru. Hefyd, mae'n atgyfnerthu gwerth adnoddau sy'n seiliedig ar ymchwil wrth lunio polisi ac ymarfer cyhoeddus. Hefyd, mae'r Academi yn darparu cyfle i gynyddu ac ymestyn cyfranogiad pobl ifanc trwy fodel peilot o ddylunio cydweithredol. Yn hytrach na thrin cyd-ddylunio fel cam ymchwil ar wahân, bydd yr Academi yn gweithio gyda phobl ifanc fel cyfranwyr parhaus at y broses o ddatblygu, profi a mireinio gweithgareddau, adnoddau a llwybrau dysgu ar gyfer newid gwleidyddol a

chymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gwefan Ysgogwyr Newid fel sylfaen gwybodaeth gyffredin ac adnodd ymarferol, gan roi cyfle i gyfranogwyr lunio sut mae'n cael ei defnyddio, ei haddasu a'i datblygu mewn cyd-destunau addysgol a dinesig sy'n rhan o brofiadau bywyd.

Cydnabyddiaethau

Mae'r prosiect wedi gweithio gydag amrywiaeth o leisiau ifanc o Gymru. Hoffem ddiolch i Fforwm Ieuenctid Grange Pavilion a Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro am eu holl amser, ymdrech a mewnbwn i'r gwaith hwn, gan gynnwys y grwpiau ffocws. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y prosiect Ysgogwyr Newid, gan gynnwys yr adroddiad terfynol.

Datganiad o fuddiant

Mae'r awduron yn adrodd nad oes unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro i'w datgan.

Cyfeiriadau

Blair, J. a Mathias, M. (2018). *Clywed Ein Lleisiau: Syniadau Pobl Ifanc ar gyfer Addysg Wleidyddol yng Nghymru.* Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru. Gw. https://electoral-reform.org.uk/latest-news-and-research/publications/clywed-ein-lleisiau-syniadau-pobl-ifanc-ar-gyfer-addysg-wleidyddol-yng-nghymru/?lang=cy (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Andreouli, E., Obradović, S. a Mahendran., K. (2024). *Citizens in the making: final report. Open Psychology Research Centre.* Gw. https://fass.open.ac.uk/school-psychology-counselling/news/citizens-in-the-making-report?nocache=66aca32ad85cc (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Bacalso, C., Barta, O. a Moxon, D. (2024). *Youth Political Participation: Literature and Policy Review 1980–2023.* Gw. https://youthdemocracycohort.com/wp-content/uploads/2024/11/Youth-Political-Participation-Policy-and-litterature-review-1980%E2%80%932023.pdf (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Bessant, J., Farthing, R. a Watts, R. (2016). Co-designing a civics curriculum: young people, democratic deficit and political renewal in the EU. *Journal of Curriculum Studies*, 48(2), 271–89. DOI: 10.1080/00220272.2015.1018329

Biesta, G. (2011). *Learning democracy in school and society: Education, lifelong learning, and the politics of citizenship.* Rotterdam: Sense Publishers.

Birch, S., Gottfried, G. a Lodge, G. (2013). *Divided democracy: political inequality in the UK and why it matters.* Gw. https://ipprorg.files.svdcdn.com/production/Downloads/divided-democracy_Nov2013_11420.pdf?dm=1702047245 (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Y Brifysgol Agored (2026). *Lansio Academi Newydd i Rymuso'r Genhedlaeth Nesaf i Ysgogi Newid yng Nghymru.* Gw. https://university.open.ac.uk/wales/cy/news/lansio-academi-newydd-i-rymusor-genhedlaeth-nesaf-i-ysgogi-newid-yng-nghymru (cyrchwyd 5 Awst 2026).

CESIE (dim dyddiad). *Innovative actions to improve the literacy and political engagement of 15-30 year olds, youth workers and educators through participatory learning experiences and the use of practical resources.* Gw. https://cesie.org/en/project/get-political/ (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Chrisp, J. a Pearce, N. (2021). *The age divide in UK politics.* Gw. https://www.bath.ac.uk/publications/the-age-divide-in-uk-politics/attachments/the-age-divide-in-uk-politics.pdf (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Cohen, C. a Kahne, J. (2012). *Participatory politics: New media and youth political action.* Youth & Participatory Politics Research Network.

Y Comisiwn Etholiadol. (2022). *Mae angen mwy o gefnogaeth ar bleidleiswyr ifanc yng Nghymru i gymryd rhan mewn etholiadau.* Gw. https://www.electoralcommission.org.uk/cy/media-centre/mae-angen-mwy-o-gefnogaeth-ar-bleidleiswyr-ifanc-yng-nghymru-i-gymryd-rhan-mewn-etholiadau (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Y Comisiwn Etholiadol. (2025). *Young Voices on Democracy. What they know and what they need.* Gw. https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/2025-08/Young%20Voices%20on%20Democracy%202025.pdf (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Cymwysterau Cymru (2023). *Deilliannau ymgynghoriad fesul pwnc.* Gw. https://cymwysterau.cymru/media/s43ni1rx/deilliannau-ymgynghoriad-fesul-pwnc.pdf (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Dhesi, M. (2022). *The Welsh Voter Problem.* Sefydliad Materion Cymreig. Gw. https://www.iwa.wales/agenda/2022/05/the-welsh-voter-problem/?lang=cy (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Europa (dim dyddiad). *Turnout by year.* Gw. https://results.elections.europa.eu/en/turnout/ (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Foster, C. (2021). *Young people and political engagement in Wales.* Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru. Gw. https://wiserd.ac.uk/cy/blogiau/young-people-and-political-engagement-in-wales-cy/ (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Foster, C., Arman, L. a Power, S. (2022), *Tyfu i fyny yng Nghymru: y pandemig a thu hwnt | Tystiolaeth o Astudiaeth Aml-garfan Addysg WISERD.* Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru. Gw. https://wiserd.ac.uk/cy/publication/growing-up-in-wales-the-pandemic-and-beyond-evidence-from-the-wiserd-education-multi-cohort-study-cy/ (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Furlong, A. a Cartmel, F. (2012). Social change and political engagement among young people: Generation and the 2009/2010 British election survey. *Parliamentary affairs*, 65(1), 13–28.

Harris, A., Wyn, J. ac Younes, S. (2010). Beyond apathetic or activist youth: 'Ordinary' young people and contemporary forms of participation. *Young*, 18(1), 9–32.

Hecker, J. a Kalpokas, N. (2023a). *What is a Narrative Literature Review? ATLAS.ti Guides.* Gw. https://atlasti.com/guides/literature-review/narrative-literature-review (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Hecker, J. a Kalpokas, N. (2023b). *Thematic Analysis vs. Narrative Analysis. ATLAS.ti Guides.*Gw.https://atlasti.com/guides/thematic-analysis/thematic-analysis-vs-narrative-analysis (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Henn, M. a Foard, N. (2012). Young people, political participation and trust in Britain. *Parliamentary affairs*, 65(1), 47–67.

Huebner, C. (2021). How young people in Scotland experience the right to vote at 16: Evidence on 'Votes-at-16'in Scotland from qualitative work with young people. *Parliamentary Affairs*, 74(3), 563–80.

IFES (2024). *Understanding Young People's Political and Civic Engagement as a Counter to Democratic Backsliding.* Gw. https://www.ifes.org/sites/default/files/2024-12/Youth%20Learning%20Agenda%20Report.pdf (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Jerome, L., Sant, E., Britton, A., Emerson, L., James, S. a Milliken, M. (2022). Citizenship Education in the United Kingdom: Comparing England, Northern Ireland, Scotland and Wales. *Journal of Social Science Education*, 21(4).

Kuzina, I. (2024). *Voter Turnout in National Parliamentary Elections and Features of Electoral Processes in Europe: Does trustworthiness of electoral processes matter?* Gw. https://www.truedemdata.eu/truedem/TRUEDEM_Kuzina_11_03_24.pdf (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Llywodraeth Cymru (2025). Datganiad Ysgrifenedig: Y Grŵp Cynghori ar Arloesi Democratiaeth.Gw.https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-grwp-cynghori-ar-arloesi-democratiaeth (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Magaldi, D. a Berler, M. (2020). *Semi-structured Interviews. Encyclopaedia of Personality and Individual Differences.* Gw. https://link.springer.com/referenceworkentry/10.1007/978-3-319-24612-3_857 (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Mathias, M. (2020). *Teaching politics in our schools should be a necessity not an option. Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru*. Gw. https://www.electoral-reform.org.uk/teaching-politics-in-our-schools-should-be-a-necessity-not-an-option/

Mills, C. a Gale, T. (2010). *Schooling in disadvantaged communities: Playing the game from the back of the field.* Dordrecht: Springer.

Moore, D. (2023). Building Bridges: Wales' democracy now, and for our future. Sefydliad Materion Cymreig. Gw. https://www.iwa.wales/our-work/work/building-bridges-wales-democracy-now-and-for-our-future/ (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Moore, D., Seargeant, P. a Smith, D. (2022). *Citizens' voices, people's news: making the media work for Wales. An IWA report, in partnership with The Open University in Wales*.

Sefydliad Materion Cymreig. Gw. https://www.iwa.wales/our-work/work/citizens-voices-media-wales-report (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Moss, N. (2024). *A all newidiadau arfaethedig i'r gyfraith gynyddu canran y bobl sy'n pleidleisio yng Nghymru?* Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru. Gw. https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/a-all-newidiadau-arfaethedig-i-r-gyfraith-gynyddu-canran-y-bobl-sy-n-pleidleisio-yng-nghymru/ (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Nelsen, M. D. (2021). Cultivating Youth Engagement: Race & the Behavioral Effects of Critical Pedagogy. *Political Behavior*, 43, 751–84. Gw. https://doi.org/10.1007/s11109-019-09573-6 (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Norris, P. (2011). Democratic deficit: Critical citizens revisited. Cambridge: Cambridge University Press.

St Pierre, E. A. a Jackson, A. Y. (2014). Qualitative Data Analysis After Coding. *Qualitative inquiry*, 20(6), 715–19. Gw. https://doi.org/10.1177/1077800414532435 (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Uberoi, E. a Johnston, N. (2022). *Political disengagement in the UK: Who is disengaged? House of Commons Library.* Gw. https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-7501/CBP-7501.pdf (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Uberoi, E. (2023). *Turnout at elections. House of Commons Library.* Gw. https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-8060/CBP-8060.pdf (cyrchwyd 5 Awst 2026).

Weinberg, J. a Flinders, M. (2019). 'Improving Citizenship Education'. Yn: H. Tam (gol.) *Whose Government Is It? The Renewal of State-Citizen Cooperation*. Bristol: Bristol University Press, 177–94.